**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar**
**4 Mawrth 2015 ym**
**Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

**Presennol**
Jane A Eyton-Jones (Cadeirydd)
David Morris (Dirprwy Gadeirydd)
Celia Blomeley
Antony P Young

Gareth Owens, Dirprwy Glerc
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Jim Evans, Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cynghorydd Brian Dunn, Cyngor Sir y Fflint

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2014 eu cymeradwyo yn gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Bu i'r Dirprwy Glerc gadarnhau bod yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2014 wedi mabwysiadu'r holl brotocolau a gweithdrefnau a drafodwyd yn y cyfarfod ar 29 Ionawr 2014.

4 STANDARDS COMMITTEE ANNUAL REPORT

4.1 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol. Gofynnwyd i aelodau gymeradwyo'r adroddiad ar gyfer 2014-15.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'w gyflwyno i'r Awdurdod yng nghyfarod mis Mawrth.**

5 Y DIWEDDARAF AM FATERION MOESEGOL

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Glerc i roi diweddariad i'r aelodau am gyfraith achosion ddiweddar am y cod ymddygiad a'r canllawiau newydd a ddaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

5.2 Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am achos Heesom v OGCC [2014] EWHC 1504, a oedd yn rhoi arweiniad pwysig ar y rhyngweithiad rhwng y cod ymddygiad a'r hawl i fynegiant gwleidyddol.

5.3 Wedi i'r achos ddod i ben roedd yr Ombwdsmon wedi ymgynghori hefo'r grŵp Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol ar ganllawiau diwygiedig drafft ar y cod ymddygiad. Rhannwyd y canllawiau terfynol gyda'r aelodau ac isod nodir y paragraff oedd wedi ei ychwaengu o dan y pennawd '**Trin pobl eraill â pharch ac ystyriaeth'.**

"*Fodd bynnag, rwy'n disgwyl i aelodau ddangos yr un cwrteisi ac ystyriaeth i gydweithwyr, gwrthwynebwyr a swyddogion â'r hyn y maent yn eu dangos i eraill yn eu bywydau bob dydd. Er fy mod yn cydnabod y gall trafodaeth wleidyddol fod yn chwyrn ar brydiau ni ddylid defnyddio'r hawl i ryddid mynegiant fel esgus dros ymddwyn yn wael yn gyffredinol. Bydd ymddygiad gwael o'r fath ond yn bwrw amheuaeth ar swyddogaeth y cynghorydd yng ngolwg y cyhoedd.*"

5.4 Nodwyd mai prin yw'r achosion o ymddygiad gwael sy'n dod yn agos at dorri'r rhan hwn o'r cod. Ar y cyd â'r weithdrefn datrys yn lleol a fabwysiadodd yr Awdurdod y llynedd, y gobaith yw datrys unrhyw faterion ond rhaid nodi mai "rhwyd ddiogelwch" isel iawn o ran ymddygiad gwael sy'n cael ei darparu gan y gyfraith erbyn hyn.

5.5 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad a bod swyddogion yn adrodd yn ôl os bydd angen gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw ymddygiad annerbyniol.**

6 UNRHYW FATER ARALL

6.1 Cyn cloi'r cyfarfod, rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau ei bod wedi mynychu cyfarfod Fforwm Safonau Gogledd Cymru, a bod y prif bwyntiau trafod yn ymwneud â chynghorau tref a chymuned.

6.2 Cynhelir Cynhadledd Safonau Cymru gyfan ar 20 Hydref yng Nghaerdydd a bydd yr Ombwdsmon newydd, Nick Bennett, yn siarad yn y gynhadledd.